

Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd
meysydd llên, crefydd a hanes
yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



Anna Waring, Iolo Morganwg, a Chrynwyr Castell-nedd a Chernyw (Rhan 5)

Hyd yma yn y gyfres hon, rydym wedi canolbwyntio'n arbennig ar fywyd a chyfraniad sylweddol ac amlochrog Elijah Waring (1787–1857), Crynwr a symudodd o Alton yn Hampshire i ardal Abertawe tua 1811 ac yna i gyffiniau Castell-nedd yn 1814, ac a luniodd gofiant pwysig i Iolo Morganwg. Rhoddwyd tipyn o sylw hefyd i gyfraniad ei ferch, yr emynyddes Anna Letitia Waring (1823–1910).

Fel y nodwyd yn niwedd yr erthygl ddiwethaf yn y gyfres (yn rhifyn mis Ebrill 2024), yn 1817 priododd Elijah Waring â Deborah Price (1785–1867), un o deulu o Grynwr a symudodd o Gernyw i ardal Castell-nedd yn nechrau'r 19eg ganrif pan ddaeth ei thad yn rheolwr Gwaith Haearn Mynachlog Nedd. A dyma Elijah, felly, yn priodi i deulu a gyfrannodd yn arwyddocaol iawn i fyd masnach a diwydiant, a hefyd yn ddiwylliannol ac yn ddyngarol.

Un o ddeg plentyn Peter Price (1739–1821) a'i wraig, Anna Tregelles (1759–1846), oedd Deborah Price. Ganed Anna, mam Deborah, ym Mhennrynn (*Penryn*) ger Aberfala (*Falmouth*) yng Nghernyw. Roedd ei theulu yn rhan o rwydwaith eang o Grynwr a oedd yn amlwg iawn ym myd busnes, a llawer ohonynt yn perthyn i'w gilydd trwy briodas. Er enghraifft, roedd teuluoedd y bancwyr, Barclay a Lloyd, a'r gwneuthurwyr siocled, Cadbury, yn rhan o'r rwydwaith hwnnw.

Ymhlith y Crynwyr a berthynai'n agos i deulu Anna, roedd teulu dylanwadol Fox o Aberfala, a'u cysylltiad â'r teulu hwnnw oedd yn gyfrifol fod Anna a'i gŵr wedi symud o Gernyw i dde Cymru. Roedd gan deulu Fox ddiddordebau masnachol a diwydiannol eang ac amrywiol, gan gynnwys cynhyrchu haearn, ac yn y cyd-destun hwnnw cydweithient yn agos â Peter Price, gŵr Anna, a'i brawd, Samuel Tregelles. Yn 1792, penderfynodd nifer o Grynwr o Gernyw, gan gynnwys Peter Price, Samuel Tregelles ac aelodau o deulu Fox, gymryd prydles ar waith haearn ym Mynachlog Nedd – gwaith a fyddai'n dod yn enwog yn fyd-eang am safon uchel ei gynnyrch. Aethant ati hefyd i ddatblygu pyllau glo yn yr ardal.

Daeth Peter Price yn rheolwr Gwaith Haearn Mynachlog Nedd erbyn 1801, a dyna'r rheswm dros iddo ef a'i wraig, Anna, a'u plant symud i ardal Castell-nedd yr adeg honno. Roedd Anna Price ugain mlynedd yn iau na'i gŵr. Bu ef farw yn 1821, ond fe fyddai hi'n byw am chwarter canrif ar ei ôl, gan farw yn 1846. Roedd hi'n gymeriad cryf a galluog. Yn wir, yn ôl D. Rhys Phillips yn ei *History of the Vale of Neath*

(1925), hi oedd 'one of the most remarkable women of her time'. Daeth yn arweinydd amlwg ymhlith Crynwyr de Cymru. Roedd hi hefyd yn amlwg yn ei hymdrechion dros achosion dyngarol. Hi oedd y dylanwad pennaf ar ei phlant ac, yn dilyn ei hesiampl, fe'u gwelwyd yn ymroi'n ddiwyd i feysydd crefyddol, addysgol a dyngarol amrywiol. Roedd ei merch, Junia (1787–1845), er enghraifft, yn weithgar iawn yn ymgyrchu o blaid heddwch a dirwest ac yn erbyn caethwasiaeth ac, fel ei mam, daeth yn weinidog gyda'r Crynwyr. Daeth yn arall o'i merched dibriod, Christiana (1792–1879), hefyd yn weinidog gyda'r Crynwyr, a gwnaeth gyfraniad pwysig tuag at ddarparu addysg i'r tlodion yn ardal Castell-nedd.

Brodor o swydd Amwythig oedd Peter Price, gŵr Anna, ond fel yr awgryma ei gyfenw, roedd o dras Cymreig ar ochr ei dad, a'r teulu yn dod o sir Drefaldwyn. A thrwy gyd-ddigwyddiad, er mai Sais o Hampshire oedd ei fab-yng-nghyfraith, Elijah Waring, deuai rhai o'i hynafiaid yntau o sir Drefaldwyn. Bwriodd Peter Price ei brentisiaeth yng ngwaith haearn enwog y Crynwr, Abraham Darby (1711–63), yn Coalbrookdale, swydd Amwythig, lle arloesol yn natblygiad y diwydiant haearn ym Mhrydain yn y 18fed ganrif. Oddi yno aeth yn 1759 i weithio yng Ngwaith Haearn Carron ger Falkirk yn yr Alban, lle y bu'n cydweithio â'r peiriannydd enwog James Watt (1736–1819) yn ei ymdrechion cynnar i ddatblygu ei injan stêm chwyldroadol. Yna, yn 1768, aeth Peter Price i weithio mewn gweithfeydd haearn yn America: ym Mhensylfania, Maryland a Virginia.

Dychwelodd i Brydain yn 1774, a hynny ar yr un llong â'r masnachwr, William Dillwyn (1743–1824), brodor o Philadelphia a oedd o dras Cymreig (a'i hynafiaid yn dod o sir Frycheiniog a swydd Henffordd), ac fe ddaeth y ddau yn gyfeillion. Crynwr oedd William Dillwyn. Nid oedd Peter Price yn Grynwr ar y pryd – cafodd fagwraeth Gatholig – ond bu ei gyfarfyddiad â William Dillwyn yn gam pwysig ar y daith iddo ddod yn Grynwr ei hun, ac erbyn tua 1778 roedd wedi ymuno'n ffurfiol â Chymdeithas y Cyfeillion. Symudodd i Gernyw yn niwedd 1780. Yn Awst 1781, priododd ag Anna Tregelles, ac yn ardal Aberfala y buont yn byw am yr ugain mlynedd nesaf, nes symud i gyffiniau Castell-nedd yn 1801, lle y byddai'r ddau yn byw weddill eu bywyd.

Mae'n werth oedi am ychydig gyda William Dillwyn a'i deulu. Mae ef yn fwyaf adnabyddus am ei ymgyrchu taer yn erbyn caethwasiaeth. Ef, er enghraifft, oedd cyd-awdur petisiwn o'r enw *The Case of Our Fellow-Creatures, the Oppressed Africans* (1783), a gyflwynwyd i'r Senedd yn San Steffan yn

1784; ac ef hefyd oedd un o brif sylfaenwyr y Gymdeithas er Diddymu'r Fasnach mewn Caethion yn 1787, cymdeithas a gyfrannodd yn sylweddol iawn tuag at gael y Senedd i wahardd y gaethfasnach yn 1807. A phwyswyd yn drwm ar farn a gwybodaeth William Dillwyn gan ei gyd-ddiddymwyr, am y gallai siarad ag awdurdod am gaethwasiaeth yn America, oherwydd iddo fyw yno gyhyd ac iddo fod yn llygad-dyst i'r ormes farbaraidd ac annynol a ddioddefai'r caethion.

Mae'r enw 'Dillwyn' yn annatod glwm wrth hanes a datblygiad Abertawe yn y 19eg ganrif ac i mewn i'r 20fed, am fod cynifer o ddisgynyddion William Dillwyn wedi cyfrannu'n arwyddocaol i'w bywyd mewn cynifer o ffyrdd – i'r gwyddorau a'r celfyddydau ac yn wreiddiol, addysgol, masnachol, ac yn y blaen. Dechreuodd cysylltiad y teulu ag Abertawe pan brynodd William Dillwyn grochendy yn y dref yn 1802 ar gyfer ei fab, y naturiaethwr nodedig Lewis Weston Dillwyn (1778–1855) – a hynny flwyddyn ar ôl i'w gyfaill, Peter Price, symud i ardal Castell-nedd. Ni symudodd William Dillwyn ei hun i fyw i Abertawe, ond aeth ei fab Lewis yno yn 1803 ac aros yn y cyffiniau weddill ei fywyd.

Ymhen ychydig wedi iddo symud i Abertawe, ymadawodd Lewis yn ffurfiol â'r Crynwyr, ond parhaodd mewn llawer ffordd yn rhan o'u rhwydwaith a than eu dylanwad. Mae'n werth pwysleisio fod cysylltiadau agos rhwng Crynwyr Abertawe a rhai Castell-nedd, gyda thipyn o ryngweithio rhyngddynt mewn materion masnachol, diwylliannol a dyngarol, a gwelwyd nifer ohonynt yn symud o'r naill le i'r llall ar wahanol adegau. Gwelwyd hynny eisoes wrth inni drafod Elijah Waring, oherwydd bu ef yn byw am



**Lewis Weston Dillwyn
Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

gyfnod yn Abertawe cyn symud i Gastell-nedd, a chydweithiai dros y blynyddoedd â nifer o Grynwyr o Abertawe mewn amryw ffyrdd.

Enghraifft o hynny yw Crynwr o'r enw William Weston Young (1776–1847), a fu'n gysylltiedig â'r crochendy yn Abertawe, y 'Cambrian Pottery', a brynodd William Dillwyn yn 1802 – crochendy a ddaeth yn enwog am ansawdd rhagorol peth o'i gynnyrch porslen, yn sgil y cysylltiad a fu rhwng y crochendy hwnnw yn yr 1810au a'r crochendy arloesol yn Nantgarw. Roedd William Weston Young yn gyfaill i Lewis Dillwyn. Roedd yn un o'r rhai a gyflogwyd gan Lewis i addurno cynnyrch y 'Cambrian Pottery', a chydweithiai'r ddau yn agos hefyd fel naturiaethwyr.

Brodor o Fryste oedd William Young (er yn rhannol o dras

Cymreig), ond treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd o 1798 ymlaen ym Morgannwg, yn Abertawe a Chastell-nedd ac mewn mannau yng Nglyn Nedd a Bro Morgannwg. Trodd ei law at amrywiaeth o swyddi. Ymhlith pethau eraill, bu'n ffarmwr ac yn felinydd, yn syrfêwr ac yn arlunydd, yn fasnachwr ac yn ddyfeisiwr briciau gwrthwres ar gyfer leinio ffrwrneisiau. Roedd hefyd yn awdur. Yn 1835, ymddangosodd ei gyfrol *Guide to the Scenery and Beauties of Glyn Neath*, ac enghraifft o'r rhwydweithio a fu rhyngddo ag Elijah Waring yw'r ffaith mai ef a ysgrifennodd y gyfres o erthyglau dan y pennawd 'The Welch Naturalist' yng nghylchgrawn Elijah, *The Cambrian Visitor*, yn 1813.

Ond mae'n werth aros am ychydig eto gyda rhai o deulu Peter Price ac Anna Tregelles, ac nid lleiaf eu mab, a brawd-yng-nghyfraith Elijah Waring, sef Joseph Tregelles Price.

(*I'w barhau*)